# Cyngor Sir y Fflint

# Datganiad Polisi Trwyddedu

## Rhagfyr 2026 - Rhagfyr 2031

# Cynnwys

2.0 | Cwmpas a Graddau'r Ddeddf Trwyddedu ....... 5
3.0 | Amcanion Trwyddedu ....... 9
4.0 | Effaith Gronnus ....... 17
5.0 | Cynllunio a Rheoli Adeiladu ....... 19
6.0 | Cais am Drwydded/ Tystysgrif Tro Cyntaf ac Amrywio Telerau ac Amodau presennol ....... 20
7.0 | Digwyddiadau Dros Dro ....... 22
8.0 | Trwyddedau Personol ....... 24
9.0 | Tystysgrif Eiddo Clwb ....... 25
10.0 | Atodlen Weithredu ....... 26
11.0 | Oriau Gweithredu ....... 27
12.0 | Gorfodi, Adolygiadau a Phwerau ....... 28
13.0 | Y Broses Drwyddedu ....... 29
14.0 | Y Pwyllgor Trwyddedu ....... 32
15.0 | Ystyriaethau Arbennig ....... 33
16.0 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ....... 34
17.0 | Y Gofrestr Drwyddedu ....... 36
Atodiad A ....... 38
Atodiad B ....... 39
Atodiad C ....... 40
Atodiad D ....... 41
Atodiad E ....... 42

# Cefndir

**1.1** Cyhoeddir y Datganiad Polisi Trwyddedu hwn fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Trwyddedu 2003 ('y Ddeddf') yn unol â chanllawiau'r Swyddfa Gartref a'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan gynnwys y canllawiau statudol diweddaraf a gyhoeddwyd o dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r polisïau y bydd y Cyngor, fel Awdurdod Trwyddedu yn eu dilyn wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau am:

- Gwerthu alcohol drwy adwerthu
- Cyflenwi alcohol gan neu ar ran clwb i, neu ar orchymyn, aelod o’r clwb.
- Darparu lluniaeth gyda’r hwyr (cyflenwi diodydd neu fwyd poeth o eiddo rhwng 23:00 a 05:00 awr)
- Darparu adloniant a reoleiddir ar gyfer y cyhoedd neu aelodau clwb neu gyda golwg ar wneud elw gan gynnwys codi arian ar gyfer elusen lle mae'r adloniant yn cynnwys:
    a) perfformio drama;
    b) arddangos ffilm;
    c) digwyddiad chwaraeon dan do;
    d) adloniant bocsio neu reslo;
    e) perfformio cerddoriaeth fyw;
    f) chwarae unrhyw gerddoriaeth sydd wedi’i recordio;
    g) perfformiad dawns;
    h) adloniant tebyg i’r rhai a ddisgrifir ym mharagraff e, f neu g.

Mae'r adloniant yn dod o fewn y gofynion pan fydd yn cael ei gynnal ym mhresenoldeb cynulleidfa ac yn cael ei ddarparu ar gyfer y pwrpas neu gynnwys y diben o ddifyrru'r gynulleidfa honno.

**1.2** Ni fydd cerddoriaeth fyw achlysurol a cherddoriaeth achlysurol wedi'i recordio yn cael ei ystyried yn adloniant rheoledig. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi'r gair "achlysurol" ei ystyr cyffredin a naturiol wrth wneud dyfarniadau ynghylch a yw gweithgareddau yn drwyddedadwy.

**1.3** Nid yw cerddoriaeth ddigymell, canu a dawnsio yn cael ei gynnwys yn y diffiniad o adloniant rheoledig a bydd unrhyw achos ohono yn cael ei asesu yn unol â'r Ddeddf.

**1.4** Mae canllawiau ar y gweithdrefnau sydd i'w dilyn gan ymgeiswyr a gwrthwynebwyr yn Atodiad A y ddogfen hon.

**1.5** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod bod rhai mathau o adloniant wedi'u heithrio rhag gofynion trwyddedu Deddf Trwyddedu 2003. Mae'r eithriadau hyn yn cynnwys amrywiaeth o gerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio, dramâu, perfformiadau dawns, digwyddiadau chwaraeon dan do a gweithgareddau eraill a

ragnodir gan ddeddfwriaeth. Gan fod modd diwygio cwmpas yr eithriadau hyn o bryd i'w gilydd, nid ydynt wedi'u cynnwys yn y Polisi hwn. Dylai ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau gyfeirio at Ddeddf Trwyddedu 2003 a Chanllawiau'r Swyddfa Gartref a gyhoeddwyd o dan adran 182 o'r Ddeddf ar gyfer y sefyllfa bresennol.

# 2.0 | Cwmpas a Graddau'r Ddeddf Trwyddedu

**2.1** Mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod Trwyddedu i gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf gyda'r bwriad o hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, sef:

- atal trosedd ac anhrefn
- diogelwch y cyhoedd
- atal niwsans cyhoeddus
- amddiffyn plant rhag niwed

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod bod pob amcan yr un mor bwysig ac nad oes unrhyw rai eraill.

Cydnabyddir na all y swyddogaeth drwyddedu weithredu ar wahân yn y gwaith o gyflawni'r amcanion uchod. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu felly'n parhau i weithio mewn partneriaeth gyda'i chymunedau lleol, yr heddlu, busnesau lleol, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r holl fudd-ddeiliaid perthnasol eraill. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod bod y sector preifat a thrigolion lleol a grwpiau cymunedol â rôl yr un mor hanfodol fel cyrff cyhoeddus.

**2.2** Wrth ymgymryd â'i swyddogaeth trwyddedu, mae unrhyw awdurdod trwyddedu wedi'i ymrwymo i ddeddfwriaethau eraill, mae enghreifftiau ohonynt isod:

- Mae Adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 angen i awdurdod lleol wneud popeth a all yn rhesymol i atal trosedd ac anhrefn yn ei ardal
- Mae'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a weithredir gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i ddiogelu hawliau unigolion mewn amrywiaeth o amgylchiadau
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Yfed Alcohol mewn Mannau Cyhoeddus dynodedig) 2007
- Deddf Iechyd 2006 a Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg ac ati (Cymru) 2007 a Deddf Iechyd Cyhoeddus Cymru 2017
- Deddf Gamblo 2005
- Deddf Diogelu Data 1998
- Deddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006
- Deddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus)
- Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011
- Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Pan fydd y gyfraith eisoes yn gosod rhwymedigaethau statudol ar ymgeiswyr, ni fydd y Cyngor yn gosod yr un dyletswyddau neu ddyletswyddau tebyg, drwy amodau trwydded. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn ceisio cyflawni ei gyfrifoldebau a nodwyd yn Strategaethau eraill y Llywodraeth, i'r graddau y maent yn effeithio ar amcanion y Ddeddf Trwyddedu.

Bydd enghreifftiau o'r strategaethau hyn yn cynnwys strategaethau neu bolisïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol cyfredol perthnasol sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol, iechyd y cyhoedd, gorfodi ac economi'r nos, wrth iddynt gael eu diweddaru o bryd i'w gilydd.

**2.3** Byddai'r Awdurdod Trwyddedu hefyd yn tynnu sylw at, ac yn gefnogol o, fentrau presennol sy'n berthnasol i drwyddedu, er enghraifft:

- Cynlluniau profi oedran
- Teledu cylch cyfyng mewn canol trefi
- Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus
- Cynlluniau 'Pubwatch'
- Cynlluniau 'Off-watch'
- Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint
- Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol Gogledd Cymru - Galw Amser Newid (gweler Atodiad B)
- Menter 'Get Home Safe'
- Asesiad o Anghenion Iechyd Cyffuriau ac Alcohol BIPBC

**2.4** Amcan y broses drwyddedu yw caniatáu parhau i adwerthu alcohol a darparu gweithgareddau trwyddedig mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch y cyhoedd ac sydd ddim ar draul trigolion, nac yn arwain at golli amwynder. Dymuniad yr Awdurdod Trwyddedu yw hwyluso eiddo wedi'u rhedeg a'u rheoli'n dda gyda deiliaid trwyddedau'n dangos sensitifrwydd i effaith yr eiddo ar drigolion lleol.

**2.5** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod bod y diwydiant adloniant yn Sir y Fflint yn cyfrannu'n sylweddol at yr economi leol. Mae'n denu twristiaid ac ymwelwyr, yn creu trefi a phentrefi bywiog ac yn gyflogwr mawr. Mae gan ddeiliaid masnachol eiddo ddisgwyliad dilys o amgylchedd sy'n ddeniadol a chynaliadwy ar gyfer eu busnesau. Ond rhaid cael cydbwysedd ag anghenion y boblogaeth breswyl, y mae'n ddyletswydd i'r Awdurdod Trwyddedu amddiffyn ei amwynder.

**2.6** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn rhoi sylw i ystyriaethau ehangach sy'n effeithio ar amwynder unrhyw ardal. Mae'r rhain yn cynnwys gollwng sbwriel, sŵn, troseddau stryd ac yng nghapasiti isadeiledd y Sir, adnoddau ac adnoddau'r heddlu i ymdopi â'r ymwelwyr, yn enwedig yn ystod y nos.

**2.7** Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi mabwysiadu'r polisi hwn, sy'n nodi'r ymagwedd gyffredinol y bydd yn ei gymryd wrth weithredu fel Awdurdod Trwyddedu wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau eiddo. Drwy fabwysiadu'r polisi hwn, mae'r

Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod y bydd pob cais yn cael ei ystyried ar ei rinweddau ei hun.

**2.8** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod yr angen i annog a hyrwyddo cerddoriaeth fyw, dawnsio a theatr er lles diwylliannol ehangach cymunedau, ac yn arbennig, plant. Wrth benderfynu ar amodau i'w gosod ar drwyddedau a thystysgrifau bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn osgoi mesurau sy'n atal cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau diwylliannol trwy osod costau anuniongyrchol.

**2.9** Efallai y bydd y Cyngor yn ceisio trwyddedau eiddo yn ei enw ei hun ar gyfer mannau cyhoeddus fel sgwariau marchnad, strydoedd i gerddwyr yn unig, ac yn y blaen fel y gellir cynnal gweithgareddau cymunedol yn rhwydd. Yn y fath leoedd diffiniedig, ni fyddai angen i berfformwyr a diddanwyr gael trwydded eu hunain na chyhoeddi unrhyw hysbysiadau digwyddiad dros dro. Y cyfan fyddai angen iddynt wneud fyddai gofyn am ganiatâd gan y Cyngor fel deiliad y drwydded safle. (Ni fyddai'r Cyngor yn gofyn am awdurdod i ganiatáu gwerthu neu gyflenwi alcohol ar gyfer yr ardaloedd hyn).

**2.10** Diben y Datganiad Polisi Trwyddedu yw cynorthwyo Swyddogion ac Aelodau wrth ddod i benderfyniad ar gais penodol gan fanylu ar y materion hynny a fydd fel arfer yn cael eu hystyried. Yn ogystal, mae'r ddogfen Bolisi yn ceisio darparu eglurder i ymgeiswyr, trigolion a deiliaid eraill o eiddo a buddsoddwyr, gan eu galluogi i wneud cynlluniau i symud, aros neu fuddsoddi yn y Sir gyda rhywfaint o sicrwydd.

**2.11** Mae’r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod rôl trwyddedu wrth gefnogi cymunedau diogel, cynaliadwy a bywiog.

Wrth arfer ei swyddogaethau, bydd yr Awdurdod yn ceisio cydbwyso’r gwaith o hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu â'r angen i gefnogi safleoedd sy'n cael eu rheoli'n dda a gweithgarwch economaidd priodol. Bydd yr Awdurdod yn ystyried:

- Y canllawiau statudol a gyflwynwyd dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003;
- The National Licensing Policy Framework for the Hospitality and Leisure Sectors (Cymru a Lloegr)
- Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015;
  Strategaethau lleol perthnasol sy’n gysylltiedig â diogelwch cymunedol, iechyd y cyhoedd, diogelu’r amgylchedd, sŵn a seinweddau.

**2.12** Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn gwneud darpariaeth i ymgynghori ar y Polisi hwn a'i adolygu o leiaf bob pum mlynedd. Yn unol â hynny, caiff y Polisi hwn ei adolygu ym mis Rhagfyr 2031 fan bellaf. Gellir gwneud newidiadau dros dro iddo, er enghraifft, ar ôl cael adborth gan y gymuned leol yn nodi a yw'r amcanion trwyddedu’n cael eu diwallu neu beidio.

**2.13** Bydd y Cyngor hefyd yn monitro effaith trwyddedu ar adloniant wedi'i reoleiddio i sicrhau nad yw digwyddiadau diwylliannol yn cael eu rhwystro gan amodau

trwyddedu diangen, anghymesur neu afresymol. Bydd Swyddogion Datblygu Celfyddydau'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad ar hyn.

**2.14** Fel arfer bydd y polisi yn berthnasol i unrhyw gais am drwydded sy'n cael ei benderfynu ar ôl i'r Cyngor benderfynu gweithredu'r polisi, beth bynnag fo dyddiad cyflwyno'r cais. Bydd yr Awdurdod trwyddedu yn gwyro oddi wrth y polisi, os yw amgylchiadau unigol yr achos yn achosi hynny'n unig, er budd yr amcanion trwyddedu. Bydd rhesymau llawn dros wyro o'r polisi yn cael eu darparu.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r categorïau canlynol:

- Trwyddedau Eiddo
- Tystysgrif Eiddo Clwb
- Trwyddedau Personol
- Gweithgareddau Dros Dro a Ganiateir (Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro)

**2.15** Yn achos eiddo sydd angen Trwydded Eiddo neu Dystysgrif Eiddo Clwb gall yr Awdurdod Trwyddedu ddewis amodau priodol ac angenrheidiol o gronfa amodau'r DCMS neu Sefydliad Trwyddedu. Bydd yr amodau hyn yn briodol i natur y gweithgareddau a nodir yn yr atodlen weithredu, ac adlewyrchu'r pedwar amcan trwyddedu a nodwyd ym mharagraff 1.5 uchod.

**2.16** Yn dilyn Rhybudd o Gynnig a gymeradwywyd gan Gyngor Sir y Fflint ar 3 Ebrill 2025 ynghylch Cynhyrchion sy'n Seiliedig ar Ganabis at Ddefnydd Meddyginiaethol (CBPM), mae'r Cyngor wedi cytuno i gydnabod hawliau cleifion CBPM yn ffurfiol a bydd yn gwneud addasiadau rhesymol i ddiwallu eu hanghenion yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n bwysig nodi y bydd rhai sy'n cymryd y cynhyrchion hyn ar bresgripsiwn yn cario presgripsiwn meddygol gyda nhw a bydd y cynnyrch hefyd wedi'i labelu'n glir fel y byddai unrhyw gyffur arall ar bresgripsiwn. Gofynnir i Ddeiliaid Trwydded Eiddo ymgyfarwyddo â Chanllawiau Cyngor y Diwydiant Canabis ar gyfer Tenantiaid a Landlordiaid, 'The Use of Prescription Cannabis in Buildings'.

# 3.0 | Amcanion Trwyddedu

## Rhagarweiniad

Yng nghyd-destun hyrwyddo’r pedwar amcan trwyddedu, mae’r Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i ymgeiswyr gynnig amodau trwyddedu i liniaru’r effaith y gallai eu heiddo ei gael ar iechyd a lles eu cwsmeriaid, y gymdogaeth a’r gymuned ehangach.

## Trosedd ac Anhrefn

*Dylai’r Datganiad o Bolisi Trwyddedu a'r gweithdrefnau a'r amodau sy'n ffurfio rhan o'r broses hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu*

**3.1** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 sy’n rhoi dyletswydd arno i atal/lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal. Bydd amodau ynghlwm wrth drwyddedau eiddo a thystysgrifau eiddo clwb, cyn belled ag y bo modd, yn adlewyrchu strategaethau atal trosedd lleol, e.e. darparu camerâu teledu cylch cyfyng mewn rhai eiddo.

**3.2** Un o flaenoriaethau allweddol Partneriaeth Lleihau Trosedd ac Anhrefn Sir y Fflint yw lleihau lefel y troseddu mewn ardaloedd penodol. Bydd y polisi yn rhoi sylw, felly, i effaith debygol trwyddedu ar drosedd ac anhrefn cysylltiedig yn ardal y Cyngor, yn enwedig wrth ystyried  y lleoliad a'r effaith a gweithrediad a rheolaeth bob cais arfaethedig am drwydded, adnewyddu ac amrywio amodau.

**3.3** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn talu sylw dyledus i sylwadau Heddlu Gogledd Cymru sy'n un o'r Awdurdodau Cyfrifol yr ymgynghorir â nhw ynghylch trwydded eiddo a cheisiadau am dystysgrif eiddo clwb, a Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro.

**3.4** Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i'r Weithdrefn Adolygu Eiddo Trwyddedig rhwng Heddlu Gogledd Cymru a chwe Awdurdod Trwyddedu Gogledd Cymru, fel y dangosir yn Atodiad A.

## Cyffuriau

**3.5** Yng nghyd-destun hyrwyddo’r amcanion trwyddedu ar gyfer atal trosedd ac anrhefn a sicrhau diogelwch y cyhoedd, mae’r Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i ymgeiswyr a deiliaid trwydded:

- Gymryd pob cam rhesymol er mwyn atal cyffuriau rhag dod i mewn i’r eiddo trwyddedig
- Cymryd pob cam rhesymol i atal cyffuriau rhag newid dwylo yn yr eiddo
- Hyfforddi staff i adnabod a deall arwyddion o bobl yn camddefnyddio cyffuriau fel y gellir cymryd camau ymarferol i ymdrin ag achosion sy’n codi

- Cael staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i ymdrin â digwyddiadau sy'n gysylltiedig â chyffuriau.
- Arddangos gwybodaeth briodol am ymwybyddiaeth o ddiogelwch a chyffuriau i gwsmeriaid.
- Darparu cyfarpar cymorth cyntaf ym mhob lleoliad, ac ystafell cymorth cyntaf mewn lleoliadau mwy. Dylid ystyried darparu diffibriliwr mewn lleoliadau mwy
- Defnyddio staff sydd wedi'u hyfforddi i gynorthwyo â digwyddiadau meddygol.
- Gweithredu polisi gwahardd priodol.

**3.6** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i ymgeiswyr a deiliaid trwydded gymryd camau priodol i sicrhau diogelwch a lles cwsmeriaid, gan gynnwys atal a chanfod achosion o sbeicio diodydd a diogelu unigolion diamddiffyn.

## Goruchwylwyr Drysau

**3.7** Gall yr Awdurdod Trwyddedu, ar ôl derbyn sylwadau perthnasol, ystyried bod rhai eiddo angen goruchwyliaeth er mwyn hyrwyddo gostyngiad mewn trosedd ac anhrefn, ac i gyfrannu'n gyffredinol at weithrediad diogel yr eiddo. Mewn achosion o'r fath, gall yr Awdurdod Trwyddedu roi amod bod yn rhaid cyflogi goruchwylwyr drysau trwyddedig (Awdurdod Diwydiant Diogelwch) yn yr eiddo naill ai bob amser neu ar yr adegau hynny pan fo gweithgareddau trwyddedadwy penodol yn cael eu cynnal, ac mewn nifer a'r gymhareb a bennir gan yr Awdurdod Trwyddedu.

**3.8** Nid yw stiwardiaid a phersonau eraill â'u rôl yw darparu cyngor ynghylch diogelwch a sicrhau diogelwch y rheiny sy'n ymweld â'r eiddo yn cael eu hystyried i fod yn cyflawni gweithgaredd diogelwch ac nid oes angen iddynt fod wedi'u cofrestru gyda'r Awdurdod Diwydiant Diogelwch.

## Lluniaeth gyda'r Hwyr

**3.9** Bydd eiddo sy'n gwerthu bwyd poeth neu ddiodydd rhwng 11.00pm a 5.00am angen trwydded. Yr amcanion trwyddedu allweddol sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd hwn yw atal trosedd ac anrhefn a niwsans cyhoeddus. Pan fo darparu bwyd poeth a diodydd yn weithgaredd eilaidd mewn eiddo trwyddedig sy'n agored ar gyfer gweithgaredd arall, yna bydd amodau sylfaenol y drwydded yn ddigon ar gyfer y gweithgaredd. Ni fydd y gofynion fel arfer yn cael eu cymhwyso i siopau cyfleus / siopau garej ac eiddo tebyg, oni bai bo trosedd ac anhrefn neu niwsans cyhoeddus yn dod yn broblem.

## Cynlluniau Partneriaeth Diwydiant

**3.10** Byddai'r Awdurdod Trwyddedu yn annog pobl i gymryd rhan mewn cynlluniau megis y Cynllun Gwarchod Tafarndai (Pubwatch), Off-Watch, Braf Bob Nos (os ydynt ar gael yn yr ardal) gan eu bod yn cyfrannu tuag at yr amcan trwyddedu i atal trosedd ac anhrefn.

## Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus

**3.11** Mae Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus yn un o nifer o bwerau a gyflwynwyd dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014. Eu bwriad yw atal unigolion neu grwpiau rhag ymddwyn mewn modd gwrthgymdeithasol mewn man cyhoeddus sy'n cael, neu'n debygol o gael, effaith andwyol ar ansawdd bywyd pobl yn yr ardal. Mae'n rhaid i'r ymddygiad fod yn afresymol ac yn barhaus o ran ei natur.

Mae Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ar gyfer rheoli alcohol ar waith gan Gyngor Sir y Fflint ers 2017.

Mae'r gwaharddiadau, sy'n berthnasol drwy'r sir, fel a ganlyn:

(a) mae unrhyw un sydd, heb esgus rhesymol, yn parhau i yfed diod feddwol mewn man cyhoeddus o fewn yr Ardal Gyfyngedig (sef Sir y Fflint) pan fydd swyddog awdurdodedig yn gofyn iddo beidio, yn cyflawni trosedd.

(b) mae unrhyw berson sydd, mewn man cyhoeddus o fewn yr Ardal Gyfyngedig, heb esgus rhesymol, sy'n methu ag ildio unrhyw ddiod feddwol sydd yn eu meddiant pan fydd Swyddog Awdurdodedig yn gofyn iddo beidio, yn cyflawni trosedd.

(c) mae'n rhaid i Swyddog Awdurdodedig sy'n gosod gofyniad o dan Erthygl 4(a) ac/neu 4(b) uchod ddweud wrth y person fod methu â chydymffurfio â'r gwaharddiad ac/neu'r gofyniad, heb esgus rhesymol, yn drosedd.

## Hyrwyddiad Anghyfrifol

**3.12** Roedd gwahardd y weithred o hyrwyddo alcohol yn anghyfrifol mewn eiddo heb drwydded yn un o bum mesur a gyflwynwyd gan y Llywodraeth yn 2010. Y lleill oedd gwahardd tywallt alcohol yn uniongyrchol i gegau cwsmeriaid; gwneud dŵr tap ar gael am ddim; sicrhau bod polisïau gwirio oedran yn eu lle a chynnig dogni llai o gwrw, gwin a gwirodydd.

**3.13** Yn Sir y Fflint bydd y penderfyniad ar yr hyn sydd a'r hyn na fydd yn hyrwyddo anghyfrifol yn cael ei wneud ar sail achosion unigol trwy gymryd yr holl amgylchiadau i ystyriaeth a chan gyfeirio at Awdurdodau Cyfrifol eraill pan fo angen.

## Ardoll gyda'r Hwyr

**3.13** Darparodd newidiadau mewn deddfwriaeth sylfaenol drwy Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 y potensial i'r Awdurdod fabwysiadu pŵer lleol ychwanegol i gynorthwyo gyda rheoli effaith Economi gyda'r Hwyr ar y gymuned leol. Nid yw Cyngor Sir y Fflint ar hyn o bryd yn codi Ardoll gyda'r Hwyr.

## Gorchmynion Cyfyngu Ben Bore

3.14 Gwelir Gorchmynion Cyfyngu Ben Bore (EMRO) fel arf y gall yr Awdurdod o bosibl ei ddefnyddio i ail-addasu ffocws yr economi gyda'r nos i ffwrdd o yfed problemus, os byddai mesurau o'r fath yn hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.

## Diogelwch y Cyhoedd

**3.14** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn dymuno hyrwyddo safonau uchel o ddiogelwch cyhoeddus mewn perthynas ag eiddo a gweithgareddau o fewn cwmpas y Ddeddf Trwyddedu 2003.

**3.15** Gellir ymgynghori ag Adran y Cyngor sy'n gorfodi iechyd a diogelwch yn yr eiddo perthnasol fel Awdurdod Cyfrifol a gall weithredu fel Unigolyn Awdurdodedig at ddibenion gorfodi o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003.

**3.16** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod na fydd dyletswyddau iechyd a diogelwch cyffredinol bob amser yn ymdrin â'r materion penodol sy'n codi mewn eiddo mewn cysylltiad ag adloniant penodol ac felly efallai y bydd angen cyflwyno amodau ar gyfer y drwydded/tystysgrif.

**3.17** Lle mae gweithgareddau'n cael eu trefnu gan wirfoddolwyr neu bwyllgor clwb neu gymdeithas, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn ystyried ei bod yn arfer da darparu'r un lefel o ddiogelwch iechyd a diogelwch ag y byddai pe bai perthynas cyflogwr/cyflogai yn bodoli, waeth a oes dyletswyddau cyfreithiol llym yn berthnasol o dan y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch.

**3.18** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn annog deiliaid trwyddedau i ddarparu cyfleusterau sy'n galluogi derbyn pobl ag anableddau. Ni fydd unrhyw amodau'n cael eu cymhwyso y gellir eu defnyddio i gyfiawnhau eithriad ar sail diogelwch cyhoeddus. Ni fydd unrhyw amod ar drwydded i wahardd anifeiliaid anwes am resymau diogelwch cyhoeddus yn berthnasol i gŵn tywys neu gŵn cymorth.

## Diogelwch Tân

**3.19** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn talu sylw dyledus i sylwadau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru sy'n un o'r Awdurdodau Cyfrifol yr ymgynghorir â nhw ynghylch trwydded / ceisiadau, adnewyddu ac amrywio tystysgrif eiddo clwb.

**3.20** Gall Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ddewis amodau priodol a gofynnol mewn perthynas â materion diogelwch tân.

**3.21** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu, ar ôl derbyn sylwadau perthnasol, yn cynnwys uchafswm nifer defnyddwyr mewn trwydded eiddo/tystysgrif eiddo clwb pan fo'n ofynnol ar gyfer diogelwch cyhoeddus. Penderfynir ar y ffigur hwn mewn ymgynghoriad â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**3.22** Lle hoffai ymgeiswyr ddibynnu ar ddarpariaethau Adran 177 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (fel y'i diwygiwyd), sy'n ymwneud â cherddoriaeth fyw a dawnsio mewn eiddo sydd â chapasiti o ddim mwy na 500 o bobl, gall yr Awdurdod Trwyddedu ymgynghori â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**3.23** Mae Cyngor Sir y Fflint yn un o lofnodwyr y protocol rhwng Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru.

## Atal Niwsans Cyhoeddus

**3.24** Wrth ystyried niwsans cyhoeddus, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried: -

- Sŵn o eiddo - gan gynnwys sŵn a achosir gan gwsmeriaid yn ysmygu y tu allan
- Gwastraff
- Sbwriel - gan gynnwys sbwriel sy'n gysylltiedig ag ysmygu
- Maes Parcio
- Llygredd golau
- Arogleuon annifyr

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cymryd ystyr eang cyfraith gwlad o niwsans cyhoeddus wrth wneud ei ddyfarniadau ar geisiadau ac adolygiadau o drwyddedau / tystysgrifau eiddo.

**3.25** Wrth ystyried effaith bosibl yr eiddo trwyddedig ar yr ardal leol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried y math o weithgaredd adloniant, oriau gweithredu arfaethedig, capasiti'r eiddo a chymeriad yr ardal a'r agosrwydd at breswylwyr lleol.

**3.26** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu ddefnyddio'r gronfa gydnabyddedig o amodau trwyddedu i reoli sŵn o eiddo presennol ac i gynghori datblygwyr ar y mesurau gwanhau sŵn gofynnol ar gyfer adeiladau newydd. Efallai y bydd amodau llymach o ran rheoli sŵn yn cael eu cyflwyno mewn ardaloedd lle bo eiddo yn agos at eiddo preswyl.

**3.27** Bydd Adran Rheoli Llygredd Gwasanaeth Gwarchod y Gymuned a Busnes y Cyngor yn gweithredu fel Awdurdod Cyfrifol, ac ymgynghorir â hi ar faterion sy'n ymwneud ag atal niwsans cyhoeddus. Gellir ystyried canllawiau proffesiynol perthnasol, gan gynnwys 'Good Practice Guide on the Control of Noise from Pubs and Clubs' yr Institute of Acoustics (rhifyn cyfredol), a pholisi perthnasol Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â sŵn a seinweddau, gan gynnwys Cynllun Sŵn a Seinweddau Cymru. Bydd yr Awdurdod yn ystyried pwysigrwydd cyflawni

seinweddau priodol, lle bo'n berthnasol i arfer ei swyddogaethau trwyddedu a hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn sicrhau cydbwysedd rhwng y potensial ar gyfer tarfu cyfyngedig mewn cymdogaethau a'r angen i annog a hyrwyddo cerddoriaeth fyw, dawnsio a theatr.

**3.28** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod y pwerau sydd gan yr Heddlu i gyhoeddi Gorchymyn Cau ar eiddo trwyddedig unigol sy'n achosi niwsans o ganlyniad i sŵn, a byddem yn annog yr Heddlu i ddefnyddio pwerau o'r fath lle bynnag y bo'n briodol a rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu mewn achos o gamau o'r fath.

**3.29** Mae’r pwerau uchod hefyd ar gael i Swyddogion Rheoli Llygredd dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003. Caiff pwerau o’r fath eu defnyddio pan fernir bod angen gwneud hynny ac yn unol â’r ddeddfwriaeth.

**3.30** Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cyflwyno amodau ar eiddo trwyddedig na all y sawl sy'n meddu ar y drwydded eu rheoli'n uniongyrchol, nac ar faterion nad ydynt yn ymwneud â'r ardal ger yr eiddo.

**3.31** Wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau neu adolygiadau o drwyddedau, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn defnyddio safbwynt synnwyr cyffredin i nodi a yw'r unigolyn neu'r busnes sy'n cyflwyno sylwadau wedi'i leoli "yng nghyffiniau" yr eiddo dan sylw ac felly'n debygol o gael eu heffeithio'n uniongyrchol gan aflonyddwch ac anrhefn.

**3.32** Mae sŵn ac aflonyddwch sy'n deillio o ymddygiad y defnyddwyr sydd wedi gadael yr eiddo yn fater o gyfrifoldeb personol ac yn destun gorfodaeth yr Heddlu o'r gyfraith arferol ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac anrhefn.

**3.33** Er gwaethaf y paragraff blaenorol, barn yr Awdurdod Trwyddedu yw bod cyfrifoldeb ar Oruchwyliwr yr Eiddo Dynodedig am sicrhau nad yw pobl sydd tu allan i'w heiddo at ddibenion ysmygu yn creu niwsans cyhoeddus.

## Amddiffyn Plant rhag Niwed

**3.34** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod yr amrywiaeth mawr o eiddo y gellir gofyn am drwyddedau ar eu cyfer. Bydd y rhain yn cynnwys, er enghraifft, theatrau, sinemâu, bwytai, tafarndai, clybiau nos, caffis, siopau cludfwyd, neuaddau cymuned ac ysgolion. Ni fydd mynediad gan blant i bob math o safle yn cael ei gyfyngu mewn unrhyw ffordd ar wahân i fel y nodir yn Neddf Trwyddedu 2003, oni ystyrir ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn eu diogelu rhag niwed mewn rhyw ffordd (hy, niwed corfforol, moesol neu seicolegol).

**3.35** Wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau eiddo neu dystysgrifau eiddo clwb, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried hanes eiddo penodol a natur y gweithgareddau y bwriedir eu darparu wrth ystyried unrhyw opsiynau priodol i atal niwed i blant, er enghraifft:

- Pan fo achosion lle canfuwyd aelodau o'r staff presennol yn euog o weini alcohol i rai dan oed neu bod enw drwg am yfed dan oed.

- Gyda chysylltiad hysbys â chymryd cyffuriau neu ddelio cyffuriau
- Pan fo elfen gref o hapchwarae yn yr eiddo (ond nid presenoldeb syml ychydig o beiriannau gemau ag arian parod yn wobr)
- Pan fo adloniant neu wasanaethau o natur oedolyn neu rywiol yn cael eu darparu'n gyson e.e. staff bar heb dopiau, tynnu dillad, dawnsio glin, dawnsio ar fyrddau neu ddawnsio polyn, iaith neu ddelweddau cryf neu ymosodol (gweler paragraff 20 hefyd)
- Pan mai cyflenwi alcohol i'w yfed yn yr eiddo yw prif neu unig ddiben y gwasanaethau sy'n cael eu darparu.

Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn ei gwneud yn drosedd caniatáu i blant o dan 16 oed nad ydynt yng nghwmni oedolyn fod yn bresennol mewn eiddo sy'n cael ei ddefnyddio yn benodol neu'n bennaf er mwyn cyflenwi alcohol i'w yfed yn yr eiddo.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn defnyddio ystyr gyffredin a gwreiddiol "yn benodol neu'n bennaf" yng nghyd-destun yr amgylchiadau penodol. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried rhinweddau unigol pob cais.

**3.36** Lle mae'r amgylchiadau a ddisgrifir yn 6.2 yn bodoli yna gellir rhoi amodau ynghlwm wrth y drwydded i amddiffyn plant rhag niwed. Gall amodau o'r fath gynnwys:

- Gofynion i gyflwyno cardiau prawf oedran
- Cyfyngiad ar yr oriau lle gall plant fod yn bresennol
- Cyfyngiadau oedran (o dan 18)
- Cyfyngiadau neu waharddiadau pan fo gweithgareddau penodol yn cael eu cynnal
- Cyfyngiadau neu waharddiadau mewn perthynas â rhannau o'r eiddo
- Gwaharddiad llawn pobl o dan 18 oed pan fo unrhyw weithgareddau trwyddedadwy yn cael eu cynnal.
- Gofyniad ar gyfer goruchwyliaeth gan oedolion

Fel egwyddor gyffredinol, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi amodau ar drwyddedau eiddo neu dystysgrifau sydd angen mynediad i blant. Bydd hyn yn cael ei adael i ddisgresiwn gweithredwr y lleoliad.

**3.37** Pan y caniateir arddangos ffilmiau, bydd yr awdurdod yn disgwyl y cydymffurfir â'r cyfyngiadau oedran yn unol ag argymhellion Bwrdd Prydeinig Dosbarthiad Ffilmiau. Mae hyn yn amod gorfodol yn Neddf Trwyddedu 2003 ar gyfer eiddo sy’n gadael plant i mewn i weld unrhyw ffilm.

**3.38** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod y gofyniad yn y Ddeddf bod plant o dan 16 oed yn gorfod bod yng nghwmni oedolyn. Mewn amgylchiadau lle bo niferoedd helaeth o blant ar eu pennau eu hunain yn debygol o fod yn bresennol mewn eiddo trwyddedig penodol, er enghraifft mewn sioe i blant neu bantomeim, yna er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd ac i amddiffyn plant rhag niwed, bydd y gymhareb o oedolion sy'n ofynnol i oruchwylio'r plant yn unol ag Atodiad H, Adran

182 Canllaw Deddf Trwyddedu 2003 neu gymhareb arall y gall yr awdurdod cyfrifol ei hargymell.

**3.39** Ni fydd unrhyw ffilmiau yn cael eu harddangos mewn eiddo trwyddedig sy'n debygol o:

- Arwain at anrhefn.
- Achosi casineb neu annog trais tuag at unrhyw grŵp o'r cyhoedd ar sail lliw, hil, neu darddiad ethnig neu genedlaethol, iaith, anabledd, credoau crefyddol, tueddfryd rhywiol neu ryw.

**3.40** Gan gyfeirio'n benodol at ddiogelu plant rhag niwed, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Plant o Gyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymunedol fel yr Awdurdod Cyfrifol sy'n gymwys i ymateb ar faterion yn ymwneud â phlant a niwed.

**3.41** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i'r atodlen weithredu a gyflwynir fel rhan o geisiadau gynnwys gwybodaeth fanwl er mwyn gallu penderfynu ar safbwynt priodol o ran pa fesurau sydd eu hangen i ddiogelu plant rhag niwed.

**3.42** Gweler paragraff 15 isod i gael gwybodaeth fanylach am reoli Lleoliadau Adloniant Rhyw

## Iechyd y Cyhoedd

**3.45** Y Bwrdd Iechyd Lleol sy’n gyfrifol am wneud sylwadau ar geisiadau am drwydded. Nid yw iechyd y cyhoedd yn amcan trwyddedu ond mae'r Awdurdod Trwyddedu yn credu bod gan iechyd y cyhoedd bwysigrwydd o ran trwyddedu mewn perthynas ag anghenion iechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol yn y boblogaeth leol. Mae gan gyrff cyhoeddus megis Iechyd y Cyhoedd fynediad unigryw at ddata nad yw ar gael i awdurdodau cyfrifol eraill a allai lywio penderfyniadau trwyddedu.  Mae Iechyd y Cyhoedd yn ddefnyddiol i ddarparu tystiolaeth o niwed iechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol.

**3.46** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried y dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol ac iechyd y cyhoedd yng Nghymru, gan gynnwys data a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru.

# 4.0 | Effaith Gronnus

**4.1** Mae hyn yn ymwneud â'r effaith bosibl ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu oherwydd bod nifer sylweddol o eiddo trwyddedig wedi'u lleoli mewn un ardal.

**4.2** Nid yw'r Awdurdod Trwyddedu yn ystyried ar adeg cyhoeddi'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu hwn bod ardaloedd yn Sir y Fflint lle mae effaith gronnus yn broblem sylweddol.

**4.3** Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn dymuno paratoi ar gyfer y posibilrwydd o effaith o'r fath.

**4.4** Drwy gysylltu gyda thrigolion lleol ac Awdurdodau Cyfrifol gall yr Awdurdod Trwyddedu, felly, ddod i'r casgliad yn y dyfodol, bod rhan benodol o'i ardal yn cael ei ystyried i fod yn achosi effaith gronnus ar un neu fwy o'r amcanion trwyddedu.

**4.5** Felly, bydd polisi arbennig o wrthod trwyddedau newydd yn cael ei fabwysiadu pan fo sail dystiolaethol ar ei gyfer oddi wrth Awdurdodau Cyfrifol, partïon â diddordeb neu gyrff eraill megis Partneriaethau Lleihau Trosedd ac Anhrefn.

**4.6** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn dilyn y camau a nodir yng Nghyfarwyddyd diwygiedig y Swyddfa Gartref wrth fabwysiadu polisi arbennig.

**4.7** Bydd hyn yn creu tybiaeth amodol bod ceisiadau am drwyddedau eiddo newydd, tystysgrifau eiddo clwb neu amrywiadau deunydd fel arfer yn cael eu gwrthod, oni bai y gellir dangos na fydd gweithrediad yr eiddo dan sylw yn ychwanegu at yr effaith gronnus a brofir eisoes.

**4.8** Ni fydd y polisi arbennig, fodd bynnag, yn absoliwt. Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei haeddiant a gellir caniatáu trwyddedau neu dystysgrifau sy'n annhebygol o ychwanegu at yr effaith gronnus ar yr amcanion trwyddedu. Bydd gwahanol arddulliau a nodweddion eiddo yn cael eu hystyried.

**4.9** Ni fydd polisïau arbennig yn cael eu defnyddio fel sail dros ddiddymu trwydded neu dystysgrif bresennol, nac dros wrthod ceisiadau i amrywio trwydded bresennol ac eithrio pan fydd yr addasiadau hynny yn uniongyrchol berthnasol i'r polisi ac yn gwbl angenrheidiol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

**4.10** Ni fydd polisi arbennig yn cael ei ddefnyddio i osod amseroedd cau sefydlog mewn ardal benodol, neu i osod cwotâu - yn seiliedig ar naill ai nifer yr eiddo neu faint o le sydd yn yr eiddo hynny.

**4.11** Bydd mecanweithiau eraill hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer rheoli effaith gronnus, er enghraifft:

- Darparu TCC
- gwaharddiadau ar yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus dynodedig
- Gorfodaeth yr heddlu o’r gyfraith gyffredinol ynghylch anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Gorfodaeth y ddeddfwriaeth ar werthu alcohol i bobl sy'n feddw
- cymryd alcohol oddi ar oedolion a phlant mewn ardaloedd dynodedig
- defnydd o bwerau cau dros dro yr heddlu
- Gallu i'r Heddlu, Awdurdodau Cyfrifol, trigolion a busnesau i geisio adolygiad o drwyddedau eiddo neu dystysgrifau eiddo clwb.

# 5.0 | Cynllunio a Rheoli Adeiladu

**5.1** Bydd y cyfundrefnau Cynllunio, Rheoli Adeiladu a Thrwyddedu yn Sir y Fflint wedi cael eu gwahanu yn briodol i osgoi dyblygu ac aneffeithlonrwydd.

**5.2** Dylai ceisiadau am drwydded eiddo ar gyfer eiddo masnachol parhaol gael eu cyflwyno gan fusnesau gyda chaniatâd cynllunio ar gyfer yr eiddo dan sylw fel arfer. Fodd bynnag, gellir gwneud ceisiadau am drwyddedau cyn i unrhyw ganiatâd cynllunio perthnasol gael ei geisio neu ei roi gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

**5.3** Mae'r gweithdrefnau cynllunio a thrwyddedu yn cynnwys ystyried gwahanol faterion (er eu bod yn faterion cysylltiedig). Er enghraifft, mae trwyddedu yn ystyried materion sy'n ymwneud ag amcanion trwyddedu, gan gynnwys atal niwsans cyhoeddus, tra bod cynllunio yn ystyried defnydd ehangach o dir ac effeithiau ar amwynder. Yn unol â hynny, ni ddylid ystyried ceisiadau am drwydded fel gwaith i ail-gynnal y broses ceisiadau cynllunio, ac ni ddylai penderfyniadau cynllunio o reidrwydd lywio penderfyniadau trwyddedu, ac fel arall.

**5.4** Ni fyddai cymeradwyaeth gan yr awdurdod trwyddedu i amrywio unrhyw drwydded sy'n cynnwys addasiad sylweddol i'r adeilad yn rhyddhau'r ymgeisydd o'r angen i wneud cais am ganiatâd cynllunio (Caniatâd Adeilad Rhestredig lle bo'n berthnasol), neu Ganiatâd Rheoli Adeiladu.

**5.5** Mae amgylchiadau hefyd pan fo amod yn y caniatâd cynllunio yn gosod amser cau ar gyfer defnydd yr eiddo at ddibenion masnachol. Pan fo'r oriau hyn yn wahanol i'r oriau a awdurdodir gan drwydded eiddo, rhaid i'r ymgeisydd gydymffurfio â'r drefn fwy cyfyngol. Gall eiddo sy'n gweithredu'n groes i reolaeth gynllunio fod yn atebol i gamau gorfodi o dan ddeddfwriaeth gynllunio.

**5.6** Mae'r Awdurdod Cynllunio yn awdurdod cyfrifol o dan y Ddeddf Trwyddedu ac o'r herwydd gall gyflwyno sylwadau ar geisiadau am drwydded cyn belled ag y byddant yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu.

**5.7** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod yr egwyddor 'Asiant Newid' fel y caiff ei adlewyrchu ym Mholisi Cynllunio Cymru. Lle cynigir datblygiad newydd yng nghyffiniau safle trwyddedig cyfreithlon presennol, dylai'r cyfrifoldeb am liniaru effeithiau posibl fod gyda'r datblygwr neu'r unigolyn sy'n cyflwyno'r newid fel arfer. Mae cynllunio a thrwyddedu yn parhau i fod yn gyfundrefnau rheoleiddio ar wahân ac nid yw cymhwyso egwyddor yr Asiant Newid drwy'r system gynllunio yn diystyru'r amcanion trwyddedu na chyfrifoldebau'r Awdurdod Trwyddedu o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

# 6.0 | Cais am Drwydded/ Tystysgrif Tro Cyntaf ac Amrywio Telerau ac Amodau presennol

Wrth ystyried yr holl geisiadau newydd neu amrywio amod, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn eu hasesu yng ngoleuni'r amcanion trwyddedu, yr atodlen weithredu ac yn benodol bydd yn ystyried y canlynol, i'r graddau eu bod o dan reolaeth yr ymgeisydd:

**6.1** Y camau mae'r ymgeisydd wedi eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd er mwyn atal sŵn a dirgryniad rhag dianc o'r eiddo, gan gynnwys cerddoriaeth, sŵn o offer awyru, a lleisiau dynol. Gall mesurau o'r fath gynnwys gosod elfennau gwrthsain, aerdymheru, lobiau acwstig a dyfeisiau cyfyngu sain.

**6.2** Y camau mae'r ymgeisydd wedi eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd i atal aflonyddwch gan gwsmeriaid sy'n cyrraedd neu'n gadael yr eiddo.

**6.3** Y camau y mae'r ymgeisydd wedi'u cymryd neu'n eu cynnig i atal ciwio, neu, os yw ciwio'n anochel, i wyro'r ciwiau o'r eiddo cyfagos, neu i reoli'r ciw i atal aflonyddwch neu rwystr.

**6.4** Y camau mae'r ymgeisydd wedi eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd i sicrhau bod cwsmeriaid yn gadael yr adeilad yn ddistaw.

**6.5** Y trefniadau a wnaed neu a gynigiwyd ar gyfer parcio cwsmeriaid, ac effaith parcio ar breswylwyr lleol.

**6.6** A oes digon o ddarpariaeth cludiant cyhoeddus ar gyfer cwsmeriaid.

**6.7** A yw tacsis a cherbydau hurio preifat sy'n gwasanaethu'r eiddo yn debygol o amharu ar breswylwyr lleol.

**6.8** P'un a yw llwybrau i ac o'r eiddo ar droed neu mewn car neu gerbyd gwasanaeth / cerbydau danfon yn mynd heibio eiddo preswyl.

**6.9** P'un a yw mesurau eraill i ostwng niwsans wedi eu hystyried, fel defnyddio TCC neu gyflogi Goruchwylwyr Drysau Trwyddedig.

**6.10** Y mesurau a gynigiwyd i atal defnyddio neu gyflenwi cyffuriau anghyfreithlon, gan gynnwys unrhyw weithdrefnau chwilio.

**6.11** Tebygolrwydd bod unrhyw drais, anrhefn gyhoeddus neu broblem plismona yn codi pe bai trwydded yn cael ei chymeradwyo.

**6.12** Os yw'r ymgeisydd wedi dal trwydded yn y Sir yn flaenorol, manylion unrhyw gamau gorfodi sydd wedi deillio o'r eiddo.

**6.13** A fyddai'r eiddo yn arwain at gynnydd mewn problemau storio neu waredu sbwriel, neu sbwriel ychwanegol yn ardal yr eiddo.

**6.14** Sylwadau gan Awdurdodau Cyfrifol.

**6.15** Sylwadau gan bartïon â diddordeb.

**6.16** Mewn perthynas â cheisiadau am amrywio trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried hanes blaenorol yr eiddo a'i reolaeth. Bydd barn yr holl Awdurdodau Cyfrifol yn cael eu hystyried.

## Mân Amrywiadau

6.17 Gall deilydd trwydded eiddo /tystysgrif eiddo clwb wneud cais o dan y weithdrefn 'mân amrywiad' ar gyfer amrywiadau bach nad ydynt yn cael effaith andwyol ar yr amcanion trwyddedu. Nid oes hawl i gael gwrandawiad, fodd bynnag pe bai'r cais yn cael ei wrthod, gellir cyflwyno cais llawn.

6.18 Mae'n rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried effaith y mân amrywiad, a phenderfynu a ddylid ymgynghori ag unrhyw un o'r Awdurdodau Cyfrifol.

## Ffi Flynyddol

6.19 Er bod trwyddedau eiddo a thystysgrifau eiddo clwb yn cael eu cymeradwyo am gyfnod amhenodol, mae'n ofynnol i ddeiliaid trwydded dalu ffi flynyddol i'r Awdurdod Trwyddedu.

Yn ystod 2012, newidiodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol Deddf Trwyddedu 2003 i roi gofyniad ar yr Awdurdodau Trwyddedu i atal trwyddedau eiddo lle nad yw'r ffioedd blynyddol wedi cael eu talu.

# 7.0 | Digwyddiadau Dros Dro

**7.1** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried y canllawiau statudol diweddaraf a gyhoeddwyd o dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003 mewn perthynas â Rhybuddion Digwyddiad Dros Dro. Yn syml, mae'r rhain yn ddigwyddiadau sy'n para am lai na 168 awr a chyda llai na 500 yn eu mynychu.

**7.2** Mae Rhybuddion Digwyddiad Dros Dro yn destun proses reoleiddio ysgafn. Mae gan yr Awdurdod Trwyddedu ddisgresiwn cyfyngedig mewn perthynas â Rhybuddion Digwyddiad Dros Dro a dim ond pan geir gwrthwynebiad perthnasol gan Awdurdod Cyfrifol y gall ymyrryd.

**7.3** Gall yr Heddlu ac Iechyd yr Amgylchedd wrthwynebu Rhybudd Digwyddiad Dros Dro o fewn tri diwrnod o'i gyflwyno lle maent yn ystyried y gallai'r amcanion trwyddedu gael eu tanseilio.

**7.4** Bydd sawl digwyddiad lleol yn cael ei drefnu gan wirfoddolwyr neu bwyllgor clwb neu gymdeithas. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn credu ei bod yn arfer da bod yr un lefel o amddiffyniad iechyd a diogelwch yn cael ei ddarparu ag fel pe bai perthynas cyflogwr/cyflogai yn bodoli, boed dyletswyddau cyfreithiol llym yn bodoli o dan y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch presennol ai peidio.

**7.5** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn annog trefnwyr digwyddiadau dros dro i ofyn am gyngor / gwybodaeth gan eu Grwpiau Cynghori Diogelwch lleol.

**7.6** Er bod yr Awdurdod Trwyddedu yn gallu atodi unrhyw amodau neu gyfyngiadau mewn perthynas â Digwyddiadau Dros Dro mae'n disgwyl i drefnwyr roi parch priodol i drigolion lleol a'r rhai sy'n mynychu digwyddiadau, er enghraifft, ym meysydd:

- iechyd a diogelwch
- llygredd sŵn
- defnydd o strwythurau dros dro
- cau ffyrdd
- defnydd o dân gwyllt
- rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol
- gwerthu alcohol

## Rhybudd Digwyddiad Dros Dro Safonol

**7.7** Mae'n rhaid rhoi isafswm o ddeg diwrnod o rybudd i'r Awdurdod Trwyddedu ar gyfer digwyddiadau dros dro, fodd bynnag, ffefrir rhybudd cyn gynted â phosibl. Mae "deg diwrnod o rybudd" yn golygu deg diwrnod gwaith, heb gynnwys y dyddiad y derbynnir yr hysbysiad, a'r diwrnod y mae'r digwyddiad yn dechrau. Nid yw "diwrnod gwaith" yn cynnwys dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Gŵyl San Steffan, Dydd Calan, Dydd Gwener y Groglith na Gŵyl y Banc.

**7.8** Pan fo'r Heddlu neu Iechyd yr Amgylchedd yn gwrthwynebu Rhybudd Digwyddiad Dros Dro, gall yr ymgeisydd gytuno i'w addasu. Os na cheir cytundeb, bydd gwrandawiad yr Is-bwyllgor Trwyddedu yn cael ei drefnu. Efallai y bydd y panel yn penderfynu cyflwyno amodau neu Hysbysiad Gwrthwynebu i atal y digwyddiad rhag cael ei gynnal.

## Rhybuddion Digwyddiad Dros Dro Hwyr

**7.9** Gellir rhoi Rhybudd Digwyddiad Dros Dro hwyr hyd at bum diwrnod gwaith ond ddim cynharach na naw diwrnod gwaith cyn y cynhelir y digwyddiad, heb gynnwys y dyddiad y ceir yr hysbysiad, a'r diwrnod y mae'r digwyddiad yn dechrau. Nid yw "diwrnod gwaith" yn cynnwys dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Gŵyl San Steffan, Dydd Calan, Dydd Gwener y Groglith na Gŵyl y Banc.

**7.10** Pan fo'r Heddlu neu Iechyd yr Amgylchedd yn gwneud cais ar gyfer Rhybudd Digwyddiad Dros Dro Hwyr, nid oes darpariaeth ar gyfer gwrandawiad ac mae'n rhaid i'r Awdurdod gyflwyno Rhybudd Gwrthwynebu i atal y digwyddiad rhag cael ei gynnal.

## Cyfyngiadau

**7.11** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried unrhyw ddarpariaethau statudol wedi'u diweddaru sy'n ymwneud â chyfyngiadau Rhybudd Digwyddiad Dros Dro

# 8.0 | Trwyddedau Personol

**8.1** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn dilyn canllaw y Swyddfa Gartref yn fanwl mewn perthynas â cheisiadau am a rhoi Trwyddedau Personol.

**8.2** Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gynhyrchu dogfen ddatgeliad o gofnod troseddol sylfaenol diweddar. Mae'n rhaid i ymgeiswyr o awdurdodaethau tramor wneud datganiad clir ynghylch a ydynt wedi eu cael yn euog y tu allan i Gymru a Lloegr o drosedd berthnasol neu drosedd gyfatebol.

**8.3** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cydweithio'n agos gyda'r Heddlu pan ganfyddir bod gan ymgeisydd euogfarn heb ei dreulio ar gyfer trosedd berthnasol a ddiffiniwyd yn y Ddeddf.

**8.4** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn atodi manylion y troseddau perthnasol i'r ffurflenni cais er gwybodaeth i'r ymgeiswyr.

# 9.0 | Tystysgrif Eiddo Clwb

**9.1** Mae Adran 62 o'r Ddeddf Trwyddedu yn gosod yr amodau cyffredinol y mae'n rhaid i sefydliad gydag o leiaf 25 aelod sydd wedi uno gyda'i gilydd at ddibenion cymdeithasol, chwaraeon neu wleidyddol penodol eu diwallu er mwyn bod yn glwb cymwys. Dim ond clybiau cymwys sy'n gallu gwneud cais am Dystysgrif Eiddo Clwb.

**9.2** Mae Tystysgrif Eiddo Clwb yn darparu awdurdodiad ar gyfer cyflenwi alcohol a darparu adloniant wedi'i reoleiddio er budd yr aelodau a'u gwesteion dilys yn unig. Os yw eiddo yn dymuno darparu gweithgareddau trwyddedadwy ar gyfer rhai nad ydynt yn aelod o'r clwb neu'r cyhoedd yn gyffredinol, bydd yn rhaid iddynt wneud hynny trwy gyflwyno Rhybudd Digwyddiad Dros Dro neu Drwydded Eiddo. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cydweithio'n agos gyda'r Heddlu pan ganfyddir bod gan ymgeisydd euogfarn heb ei dreulio ar gyfer trosedd berthnasol a ddiffiniwyd yn y Ddeddf.

**9.3** Mae cymeradwyo Tystysgrif Eiddo Clwb yn darparu buddion penodol ar gyfer y clwb cymwys:

- Cyflenwi alcohol i aelodau heb ofyniad ar gyfer Goruchwylydd Eiddo Dynodedig.
- Darparu Lluniaeth gyda’r Hwyr i aelodau heb fod angen awdurdodiad ychwanegol
- Hawliau mynediad cyfyngedig i'r heddlu ac unigolion awdurdodedig gan y bydd yr eiddo yn cael ei ystyried yn gyffredinol fel eiddo preifat ac ni fydd ar agor i'r cyhoedd yn gyffredinol.
- Eithriad o orchmynion llys yr ynadon i gau'r holl eiddo trwyddedig mewn ardal pan fo anrhefn yn digwydd neu'n ddisgwyliedig.

# 10.0 | Atodlen Weithredu

**10.1** Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n credu dylai'r holl bartïon – awdurdodau trwyddedu, deiliaid trwyddedau/ tystysgrifau, personau awdurdodedig, yr heddlu ac awdurdodau cyfrifol – fod yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i sicrhau bod amcanion trwyddedu yn cael eu hyrwyddo ar y cyd.

**10.2** Er mwyn lleihau anghydfodau a'r angen am wrandawiadau, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn credu y byddai'n gall i ymgeiswyr ymgynghori â'r holl awdurdodau cyfrifol pan fo atodlenni gweithredu yn cael eu paratoi.

**10.3** Disgwylir i Atodlenni Gweithredu gynnwys gwybodaeth ddigonol i ganiatáu unrhyw Awdurdod Cyfrifol neu barti â diddordeb i asesu a yw'r camau i'w cymryd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu yn foddhaol.

**10.4** Dylai disgrifiadau o weithgareddau a gynigir yn yr eiddo gynnwys y rheiny sydd hefyd yn cwympo tu allan i'r diffiniad o adloniant rheoledig.

**10.5** Dylid disgrifio'r math o ddawnsio, yn ogystal â'r math o gerddoriaeth a ddarperir. Mae'r math yma o wybodaeth yn hanfodol fel bod yr Awdurdod Cyfrifol a'r partïon â diddordeb yn gallu ffurfio barn iawn ynglŷn â pha fesurau allai fod eu hangen i sicrhau bod yr amcanion trwyddedu yn cael eu diwallu.

**10.6** Bydd y mesurau a gynigir yn yr Atodlenni Gweithredu i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu yn dod yn amodau trwydded sydd ynghlwm i drwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb.

# 11.0 | Oriau Gweithredu

**11.1** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod y gall amseroedd cau penodedig a chynnar mewn rhai ardaloedd arwain at anrhefn ac aflonyddwch ar y strydoedd pan fo niferoedd mawr o bobl yn tueddu i adael yr eiddo trwyddedig ar yr un pryd.

**11.2** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ceisio, drwy ddarpariaethau'r amcanion trwyddedu, i gyflawni gwasgariad arafach o bobl yn gadael eiddo trwyddedig trwy oriau agor hirach. Ni fydd y Cyngor yn pennu amseroedd cau ymlaen llaw ar gyfer ardaloedd penodol, na cheisio creu 'amseroedd cau cyfnodol'.

**11.3** Fel arfer, caniateir i siopau, storfeydd ac archfarchnadoedd werthu alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo ar yr adegau sy'n unol â'u horiau agor arferol. Gall oriau gael eu cyfyngu pan dderbynnir sylwadau oddi wrth yr Heddlu mewn perthynas â siopau unigol y gwyddys eu bod yn ganolbwynt anhrefn ac aflonyddwch.

**11.4** Wrth ystyried ceisiadau ar gyfer trwyddedau / tystysgrifau eiddo, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried ceisiadau'r ymgeisydd am oriau cau yng ngoleuni:

- Effaith bosibl ar amwynder yr ardal
- Cymeriad neu swyddogaeth ardal benodol
- Natur y gweithgareddau arfaethedig fydd yn cael eu darparu yn yr eiddo

**11.5** Fel arfer, bydd yr oriau cau yn cael eu cymeradwyo os gall yr ymgeisydd ddangos na fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol ar yr uchod. Gall yr Awdurdod Trwyddedu osod oriau cau cynharach pan ystyrir bod hyn yn briodol.

**11.6** Pan fo eiddo wedi'i leoli ger ardaloedd preswyl yna efallai y bydd amodau llymach o ran rheoli sŵn yn berthnasol, ond ni ddylai hyn gyfyngu'r oriau agor ar yr amod y cydymffurfir â'r amodau.

**11.7** Nid yw'r adegau pan fydd eiddo ar agor i'r cyhoedd o reidrwydd yn union yr un fath â'r oriau y gall gweithgareddau trwyddedadwy gael eu cynnal. Bydd yn bosibl i eiddo ganiatáu yfed alcohol a brynwyd yn flaenorol y tu allan i'r oriau a awdurdodwyd ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol.

**11.8** Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gorfodi i ddeilydd trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb i aros ar agor am y cyfnod cyfan a ganiateir gan ei drwydded neu dystysgrif.

# 12.0 | Gorfodi, Adolygiadau a Phwerau

**12.1** Mae protocol ar weithredu rôl orfodaeth ar y cyd rhwng yr Awdurdod Trwyddedu a Heddlu Gogledd Cymru wedi cael ei sefydlu.

**12.2** Yn gyffredinol, dim ond yn ôl egwyddorion gorfodi y cytunwyd arnynt ac yn unol â Pholisi Gorfodi Diogelu'r Gymuned a Busnesau y cymerir camau gweithredu.

**12.3** Mae'r broses adolygu yn galluogi awdurdodau trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol i fynd i'r afael â phryderon sy'n codi o weithredu safleoedd trwyddedig mewn modd cymesur, heb osod cyfyngiadau diangen ar adeg y grant.

**12.4** Gall yr Awdurdodau Cyfrifol gychwyn adolygiad, e.e. Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint neu gan unrhyw un arall.

**12.5** Ym mhob achos bydd angen cyflwyno tystiolaeth ddigonol i gefnogi'r honiadau a wnaed i'r Awdurdod Trwyddedu.

**12.6** Lle bo'n briodol, anogir Awdurdodau Cyfrifol a Phersonau Awdurdodedig i ymgysylltu â deiliaid trwyddedau a cheisio gwelliannau cyn cychwyn adolygiad. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn briodol mewn achosion difrifol

**12.7** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cyfeirio at ganllawiau'r Swyddfa Gartref wrth ystyried a yw cwynion gan bartïon â diddordeb yn amherthnasol, blinderus, gwamal neu ailadroddus.

**12.8** Mae diwygiadau i'r Ddeddf Trwyddedu drwy'r Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn rhoi pwerau i'r Cyngor wahardd trwyddedau eiddo a thystysgrifau eiddo clwb pan nad yw'r ffi flynyddol ofynnol wedi'i thalu.

**12.9** Pan na fydd ffi flynyddol wedi cael ei thalu erbyn y dyddiad priodol, fel arfer pen-blwydd y dyddiad rhoddwyd y drwydded gyntaf, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi gwybod i ddeiliad y drwydded neu'r dystysgrif yn ysgrifenedig:

- Y bydd y drwydded neu'r dystysgrif yn cael ei gwahardd mewn 7 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad
- Ni fydd y gwaharddiad yn dod i rym os telir y ffi cyn y dyddiad gwahardd.

# 13.0 | Y Broses Drwyddedu

## Amodau'r Drwydded

**13.1** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn osgoi cyflwyno amodau anghymesur neu or-lethol ar drwyddedau eiddo / tystysgrifau eiddo clwb.

**13.2** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi sylw i'r gronfa o amodau enghreifftiol ac yn atodi amodau fel y bo'n briodol o ystyried amgylchiadau pob achos unigol. Bydd yr amodau enghreifftiol yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â –

- Trosedd ac anhrefn
- Diogelwch y cyhoedd
- Niwsans cyhoeddus
- Amddiffyn plant rhag niwed

**13.3** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn ystyried y dogfennau cyfeirio a restrwyd yn yr Atodiadau i Ganllawiau'r Swyddfa Gartref, er na fyddant yn cael eu defnyddio fel amodau safonol.

**13.4** Wrth atodi amodau'r bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn ymwybodol o'r angen i osgoi mesurau a allai atal cerddoriaeth fyw, dawnsio neu theatr drwy gyflwyno costau anuniongyrchol o natur sylweddol.

**13.5** Wrth benderfynu ar geisiadau bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi sylw i ganllawiau a gyflwynwyd gan y Swyddfa Gartref. Yn benodol, rhoddir cyfrif o'r angen i annog a hyrwyddo cerddoriaeth fyw, dawnsio a'r theatr er budd diwylliannol ehangach y gymuned yn ei chyfanrwydd. Os gwneir sylwadau ynghylch y potensial am darfu cyfyngedig mewn cymdogaeth benodol, bydd ystyriaeth yr Awdurdod Trwyddedu yn cael ei chydbwyso yn erbyn y manteision i'r gymuned.

## Gweinyddu – Proses Ymgeisio

**13.6** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn derbyn na ddylai ymyrryd â'r penderfyniad o ran pwy yw'r unigolyn mwyaf priodol i wneud cais neu i ddal trwydded eiddo / tystysgrif eiddo clwb. Fe fydd, fodd bynnag, yn derbyn ceisiadau a wnaed yn y ffurf ragnodedig yn unig.

**13.7** Y Goruchwylydd Eiddo Dynodedig yw'r unigolyn a nodir ar y drwydded eiddo fel un sydd â chyfrifoldeb 'o ddydd i ddydd' am yr eiddo. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gellir pennu Goruchwylydd Eiddo Dynodedig ar sawl trwydded eiddo, yn enwedig dros dro yn ystod cyfnod recriwtio neu newidiadau sefydliadol. Lle bo hyn yn wir, gellir gofyn i ymgeiswyr ddangos sut y cynhelir trefniadau rheoli effeithiol ym mhob eiddo a sut y sicrheir y caiff yr amcanion trwyddedu eu hyrwyddo.

**13.8** Bydd yr awdurdod trwyddedu yn disgwyl i'r ymgeiswyr unigol fynd i'r afael â'r pedwar amcan trwyddedu yn eu hatodlen weithredu a rhoi sylw dyledus i'r math o eiddo, y gweithgareddau trwyddedadwy fydd yn cael eu darparu, y gweithdrefnau gweithredu, natur y lleoliad ac anghenion y gymuned leol.

**13.9** Anogir ymgeiswyr i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw bolisïau cynllunio a chludiant perthnasol, strategaethau twristiaeth a diwylliannol a mentrau atal trosedd lleol ac i ystyried y rhain lle bo'n briodol wrth lunio eu hatodlen weithredu.

**13.10** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ceisio cydbwyso buddiannau trigolion lleol, busnesau, deiliaid trwydded a'r gymuned ehangach wrth arfer ei swyddogaethau trwyddedu, gan ystyried hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

**13.11** Efallai y bydd pwerau'r Awdurdod Trwyddedu o dan y Ddeddf yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Trwyddedu, neu Is-Bwyllgor, neu gan un neu fwy o swyddogion sy'n gweithredu o dan awdurdod dirprwyedig. Bydd dirprwyo swyddogaethau yn unol ag argymhellion y Swyddfa Gartref.

**13.12** Yng nghyd-destun ceisiadau, arolygiadau, gorfodaeth ac adolygiadau o drwyddedau/ tystysgrifau eiddo, mae’r grwpiau canlynol wedi’u nodi yn Sir y Fflint

**Personau a Swyddogion Awdurdodedig (rolau arolygu a gorfodaeth):**

- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Cyngor Sir y Fflint
  - Iechyd a Diogelwch
  - Rheoli Llygredd
  - Diogelwch Bwyd
  - Rheoli’r Amgylchedd
  - Safonau Masnach
  - Trwyddedu
- Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
  - yn unol â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Awdurdod Gorfodi) 1998

**Awdurdodau Cyfrifol (i'w hysbysu o geisiadau a hawl i gyflwyno sylwadau): -**

- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Cyngor Sir y Fflint - Timau Iechyd yr Amgylchedd
- Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (lle bo'n berthnasol)
- Cyngor Sir y Fflint - Cynllunio
- Cyngor Sir y Fflint - Gwasanaethau Plant
- Cyngor Sir y Fflint - Awdurdod Trwyddedu
- Bwrdd Iechyd Lleol

**13.13** Gall unrhyw berson gyflwyno sylwadau i'r Cyngor ynghylch ceisiadau am drwyddedau newydd, amrywiadau neu adolygiadau.

Gall sylwadau fod yn gadarnhaol neu'n negyddol, ond byddant ddim ond yn cael eu hystyried yn berthnasol gan y Cyngor os ydynt yn ymwneud yn glir â'r amcanion trwyddedu.

**13.14** Lle mae eiddo yn cael eu hadeiladu neu eu hymestyn neu newid yn sylweddol yn strwythurol, bydd cais am Drwydded Eiddo neu Dystysgrif Eiddo Clwb yn cael ei dderbyn cyn belled bod cynlluniau clir yn bodoli, bod atodlen weithredu yn cael ei chyflwyno ynghyd ag enw goruchwylydd penodedig yr eiddo. Os nad oes digon o fanylion ar gael, yna dylid gwneud cais am "Ddatganiad Dros Dro" yn lle hynny.

**13.15** Mae Sir y Fflint yn gysylltiedig â system Gov.uk y Llywodraeth, sy'n golygu ein bod yn gallu derbyn ceisiadau (gan gynnwys taliad) yn electronig.

# 14.0 | Y Pwyllgor Trwyddedu

Dirprwyaeth Swyddogaethau a Argymhellir

| Mater i ymdrin ag o | Pwyllgor Llawn | Is-bwyllgor | Swyddogion |
|---|---|---|---|
| Cais am drwydded bersonol | | Os ceir gwrthwynebiad gan yr Heddlu | Os nad oes unrhyw wrthwynebiadau |
| Cais am drwydded bersonol gydag euogfarnau heb eu treulio | | Pob achos | |
| Cais am drwydded eiddo/tystysgrif eiddo clwb | | Os cyflwynir sylwadau perthnasol | Os na chyflwynir sylwadau perthnasol |
| Cais am ddatganiad dros dro | | Os cyflwynir sylwadau perthnasol | Os na chyflwynir sylwadau perthnasol |
| Cais i amrywio trwydded eiddo/tystysgrif eiddo clwb | | Os cyflwynir sylwadau perthnasol | Os na chyflwynir sylwadau perthnasol |
| Cais i amrywio goruchwyliwr eiddo dynodedig | | Os ceir gwrthwynebiad gan yr Heddlu | Pob achos arall |
| Cais i beidio â bod yn oruchwyliwr eiddo dynodedig mwyach | | | Pob achos |
| Cais i drosglwyddo trwydded eiddo | | Os ceir gwrthwynebiad gan yr Heddlu | Pob achos arall |
| Ceisiadau ar gyfer awdurdodau dros dro | | Os ceir gwrthwynebiad gan yr Heddlu | Pob achos arall |
| Cais i adolygu trwydded eiddo / tystysgrif eiddo clwb | | Pob achos | |
| Penderfynu a yw cwyn yn amherthnasol, gwamal, gofidus ac ati | | | Pob achos |

| Mater i ymdrin ag o | Pwyllgor Llawn | Is-bwyllgor | Swyddogion |
|---|---|---|---|
| Penderfyniad i wrthwynebu pan fo'r awdurdod lleol yn ymgynghorai ac nad yw'n awdurdod perthnasol sy'n ystyried y cais | | Pob achos | |
| Penderfynu ar wrthwynebiad yr Heddlu i hysbysiad digwyddiad dros dro | | Pob achos | |

Mae'n rhaid cyflwyno apeliadau yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Trwyddedu i lys yr ynadon o fewn 21 diwrnod gan ddechrau o'r diwrnod yr hysbyswyd yr apelydd o benderfyniad yr awdurdod trwyddedu y maent yn apelio yn ei erbyn.

# 15.0 | Ystyriaethau Arbennig

## Adloniant i Oedolion

**15.1** Mae Cyngor Sir y Fflint wedi mabwysiadu rheolaethau yn ffurfiol ar Leoliadau Adloniant Rhyw.

**15.2** Effaith y penderfyniad hwn yw y bydd lleoliadau adloniant rhywiol yn cael ei gynnwys yn y gyfundrefn drwyddedu bresennol sy'n rheoli sefydliadau rhyw eraill, sef siopau rhyw a sinemâu rhyw.

**15.3** Bydd yn drosedd i weithredu safleoedd o'r fath heb y Drwydded Sefydliad Rhyw angenrheidiol mewn grym, neu i fethu â gweithredu yn unol â’r telerau ac amodau y mae trwydded o'r fath wedi cael ei rhoi.

**15.4** Lleoliad Adloniant Rhywiol yw unrhyw eiddo lle darperir adloniant perthnasol i gynulleidfa fyw er budd ariannol y trefnydd neu'r diddanwr. Mae adloniant perthnasol yn golygu unrhyw berfformiad byw neu arddangosfa fyw o noethni sydd o'r fath natur fel y dylid tybio'n rhesymol ei fod yn cael ei ddarparu'n unig neu'n bennaf at ddiben ysgogi aelodau'r gynulleidfa'n rhywiol. Mae enghreifftiau'n cynnwys dawnsio glin, dawnsio polyn, dawnsio bwrdd a pherfformiadau strip-bryfocio.

**15.5** Os yw Trwydded Eiddo Deddf Trwyddedu 2003 mewn grym sy'n caniatáu adloniant rheoledig ar ffurf cerddoriaeth neu ddawnsio neu adloniant o fath tebyg, bydd yn bosibl ar gyfer adloniant o'r math a amlinellir yn y paragraff uchod gael ei gynnal ddim mwy na 11 o weithiau o fewn cyfnod o 12 mis. Rhaid bod o leiaf mis rhwng pob achlysur ac ni all achlysur o'r fath bara mwy na 24 awr.

**15.6** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn debygol o ystyried bod 'stripograms' a gweithgareddau tebyg yn dod o dan y diffiniad o adloniant rhywiol os yw’r

trwyddedai yn trefnu neu'n eu darparu ac yn yr amgylchiadau hyn, felly, ni ddylent ddigwydd oni bai bod Trwydded Sefydliad Rhyw mewn grym. Fodd bynnag, gall eiddo fanteisio ar y ddarpariaeth defnydd achlysurol a nodir yn y paragraff uchod.

**15.7** Gofynnir i drwyddedai ddarparu hysbysiad i'r Awdurdod Trwyddedu pan maent yn darparu neu'n caniatáu adloniant rhywiol o dan y ddarpariaeth defnydd achlysurol a nodir ym mharagraff 20.5 uchod, neu pan fod 'stripograms' wedi perfformio yn eu heiddo. Cysylltwch â licensing@flintshire.gov.uk neu ar 01352 703 030

# 16.0 | Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

**16.1** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni datblygiad cynaliadwy drwy weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio ar y cyd â phobl, cymunedau a sefydliadau partner, a cheisio atal heriau parhaus rhag effeithio ar les y cenedlaethau presennol a’r dyfodol.

**16.2** Wrth arfer ei swyddogaethau trwyddedu, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried yr egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, lle bo'n berthnasol ac yn briodol.

**16.3** Wrth gymhwyso egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gellir ystyried amrywiaeth o ffactorau sy'n berthnasol i'r swyddogaeth drwyddedu. Gall hyn gynnwys rheoli sŵn a chreu seinweddau priodol—yr amgylchedd acwstig cywir ar yr amser cywir ac yn y lle cywir—yn ogystal â'r pum ffordd o weithio a nodwyd yn y Ddeddf: hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chyfranogi.

**16.4** Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu Cynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd ar gyfer 2023 – 2028. Mae ar gael yma: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-11/cynllun-swn-a-seinwedd-i-gymru-2023-2028.pdf

**16.5** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn ystyried, lle bo'n berthnasol, deddfwriaeth a gofynion statudol eraill sy'n berthnasol. Gallai hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (gan gynnwys niwsans statudol)
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005;

- Deddf Priffyrdd 1980 a deddfwriaeth berthnasol arall sy'n llywodraethu'r defnydd o'r briffordd gyhoeddus, gan gynnwys darparu byrddau, cadeiriau a chyfleusterau tebyg y tu allan i eiddo trwyddedig.

# 17.0 | Y Gofrestr Drwyddedu

**17.1** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cadw cofrestr drwyddedu ar-lein y gellir ei gweld yn www.siryfflint.gov.uk.

**17.2** Ni fydd y taliadau a godir am gopïau o geisiadau yn fwy na'r gost o baratoi copïau o'r fath.

# Cyswllt

Gellir cysylltu â Chyngor Sir y Fflint ynghylch y Ddeddf Trwyddedu 2003 a materion cysylltiedig yn:

Rhif ffôn: 01352 703030


E-bost: licensing@flintshire.gov.uk

Gwefan: www.siryfflint.gov.uk

Cyfeiriad gohebu: Cyngor Sir y Fflint
Tŷ Dewi Sant
Parc Busnes Dewi Sant
Ewlo
Sir y Fflint
CH5 3FF

# Atodiad A

GWEITHDREFN ADOLYGU EIDDO TRWYDDEDIG YN CYNNWYS DULL DATRYS PROBLEMAU FEL GRŴP




Ar unrhyw lefel, gan ddibynnu ar rinweddau'r achos, gellir penderfynu gwneud cais am adolygiad o drwydded eiddo. Mae symud ymlaen i bob lefel yn broses ddewisol ac mae'r siart lif hwn wedi'i gynllunio fel templed ar gyfer symud ymlaen a monitro penllanw trwydded Eiddo Trwyddedig trafferthus.

# Atodiad B

**ALCOHOL AC IECHYD YNG NGHYMRU**

Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol Gogledd Cymru - Galw Amser Newid 2025-2028

https://www.gwynedd.llyw.cymru/asset-library/cy/Trigolion/Dogfennau-trigolion/Diogelwch-Cymunedol/north-wales-alcohol-harm-reduction-strategy-cym-9-6-25.pdf

# Atodiad C

## Amodau Gorfodol

Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn rhagnodi amodau gorfodol sy'n berthnasol i rai trwyddedau eiddo a thystysgrifau eiddo clwb. Gan fod yr amodau hyn wedi'u gosod yn genedlaethol a gallant gael eu diwygio o bryd i'w gilydd, nid ydynt wedi'u cynnwys yn y Polisi hwn. Dylai ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau gyfeirio at y ddeddfwriaeth gyfredol a Chanllawiau'r Swyddfa Gartref a gyhoeddwyd o dan adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003 ar gyfer y gofynion diweddaraf. Bydd yr awdurdod yn cymhwyso'r holl amodau gorfodol i'r drwydded ar adeg y penderfyniad trwyddedu perthnasol.

# Atodiad D

## Cyfrifoldebau Deddfwriaethol Eraill

### Deddf Mewnfudo

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried yr holl ofynion deddfwriaethol perthnasol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â mewnfudo a'r hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig, wrth arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

### Deddf Dadreoleiddio

Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn rhoi pwerau i awdurdodau trwyddedu i eithrio rhai cyflenwadau o luniaeth gyda'r hwyr o'r gofyniad i gael trwydded. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn adolygu'r defnydd o'r pwerau hyn a gall eu harfer lle bo'n briodol, gan ystyried amgylchiadau lleol a'r amcanion trwyddedu.

# Atodiad E

## Rhestr Termau

**Personau Awdurdodedig** - personau awdurdodedig yw cyrff â grym i wneud gwaith arolygu a gorfodi o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

**Tystysgrif eiddo clwb** – Yn awdurdodi **clwb cymwys** i gynnal 'gweithgareddau clwb cymwys' o dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Mae hyn yn cynnwys tystysgrifau â chyfyngiad amser.

**Amodau** - mae tri math o amod

1. **Amodau Arfaethedig** - mae'r rhain yn amodau arfaethedig gan yr ymgeisydd yn yr atodlen weithredu.

2. **Amodau a Osodir** - yn amodau a osodwyd gan yr awdurdod trwyddedu ar ôl gofyn am ei ddisgresiwn yn dilyn derbyn sylwadau perthnasol.

3. **Amodau Mandadol** - mae'r rhain yn amodau a ragnodwyd gan y Ddeddf ac maent wedi'u cynnwys ym mhob trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb pan fo gweithgareddau trwyddedadwy penodol yn cael eu cynnal.

**Ardal effaith gronnus** – Ardal mae'r **awdurdod trwyddedu** wedi nodi yn eu datganiad polisi trwyddedu fel un sydd â dirlawnder o eiddo trwyddedig a gallai'r 'effaith gronnus' o unrhyw eiddo trwyddedig ychwanegol gael effaith andwyol ar yr amcanion trwyddedu statudol.

**Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig (DPS)** – Fel arfer bydd hwn y person sydd wedi cael y cyfrifoldeb am redeg yr eiddo o ddydd i ddydd gan y deiliad trwydded eiddo. Mae'n ofynnol i bob trwydded eiddo sy'n awdurdodi gwerthu alcohol o dan Ddeddf 2003 i nodi DPS. Rhaid i'r DPS fod yn ddeiliad **trwydded bersonol**. Yr unig eithriad yw ar gyfer eiddo cymunedol sydd wedi gwneud cais llwyddiannus i'r ALI i gael eu heithrio o'r gofyniad.

**Gorchymyn cyfyngu alcohol yn gynnar yn y bore** - Pŵer o dan adran 119 **Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011** i wahardd gwerthu alcohol am gyfnod penodol o amser rhwng yr oriau o 12am a 6am, os ystyrir yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

**Adolygiad Brys/ Cryno** - Gall prif swyddog yr heddlu wneud cais am adolygiad brys/ cryno o **drwydded eiddo** oherwydd troseddau difrifol ac / neu anhrefn difrifol o dan a.53A **Deddf Trwyddedu 2003**.

**Bandiau Ffi** - Wrth benderfynu ar y swm ffi'r drwydded ar gyfer ceisiadau am **drwyddedau eiddo** a **thystysgrifau eiddo clwb** newydd, ac amrywiadau llawn i drwyddedau neu dystysgrifau, mae pob eiddo yn disgyn i fand yn seiliedig ar ei werth ardrethol annomestig. Ers cyflwyno Deddf 2003 tan 2012/13, mae'r ffioedd ceisiadau sy'n gysylltiedig â phob band am drwydded neu dystysgrif newydd wedi bod fel a ganlyn: Band A (£100); Band B (£190); Band C (£315); Band D [dim **lluosydd**] (£450); Band D trwydded

eiddo gyda **lluosydd** (£900); Band E [dim lluosydd] (£635); Band E trwydded eiddo gyda lluosydd (£1,905). Mae'r ffioedd blynyddol dilynol sy'n gysylltiedig â phob trwydded neu dystysgrif fel a ganlyn: Band A (£70); Band B (£180); Band C (£295); Band D [dim lluosydd] (£320); Band D trwydded eiddo gyda lluosydd (£640); Band E [dim lluosydd] (£350); Band E trwydded eiddo gyda lluosydd (£1,050).

**Fforffedu (trwydded bersonol)** - Atal yn dilyn gorchymyn llys o dan a.129 **Deddf Trwyddedu 2003** penodedig (a lle nad yw'r gorchymyn hwnnw wedi cael ei atal dros dro, hyd nes apêl o dan a.129(4) neu 130 o'r Ddeddf).

**Gwrandawiad** - A ddefnyddir yng nghyd-destun ceisiadau am **drwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb** sy'n mynd i wrandawiad ar gyfer penderfynu ar geisiadau am drwydded eiddo, ar gyfer datganiadau dros dro, i amrywio trwydded eiddo, am dystysgrifau eiddo clwb, ac i amrywio tystysgrifau eiddo clwb.

**Adolygiad barnwrol** - Yn cynnwys dim ond y rheiny lle hysbysodd yr Uchel Lys bartïon o'i benderfyniad yn y cyfnod amser penodedig.

**Darfod (tystysgrif clwb)** – Pan mae **tystysgrif eiddo clwb** wedi dod i ben oherwydd ei fod wedi bod mewn grym am gyfnod cyfyngedig, ond bod y cyfnod wedi dod i ben ers hynny.

**Darfod (trwydded eiddo)** – Pan fo **trwydded eiddo** wedi dod i ben oherwydd marwolaeth, anallu, ansolfedd ac ati deiliad y drwydded, fel y nodir o dan adran 27 o **Ddeddf Trwyddedu 2003**. Ac eithrio achosion lle'r oedd trwydded safle yn weithredol dros gyfnod byr, ond bod y cyfnod wedi dod i ben ers hynny (e.e. digwyddiadau untro).

**Gorchymyn ardoll gyda'r hwyr** – Pŵer disgresiwn i awdurdodau trwyddedu o dan adran 125 o **Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011**. Telir yr ardoll gyda'r hwyr gan y safleoedd hynny sydd wedi'u trwyddedu i werthu alcohol gyda'r hwyr i godi cyfraniad at gostau plismona'r economi gyda'r hwyr.

**Lluniaeth gyda'r hwyr** - Darparu bwyd poeth neu ddiod i'r cyhoedd, i'w yfed ar neu oddi ar yr eiddo, rhwng 11pm a 5am neu gyflenwi bwyd poeth neu ddiod boeth i unrhyw un rhwng yr oriau hynny ar neu o eiddo lle mae mynediad i'r cyhoedd.

**Awdurdod trwyddedu** - yr awdurdod trwyddedu sy'n gyfrifol am drwyddedu alcohol, adloniant rheoledig a lluniaeth gyda'r hwyr.

**Mân amrywiad (i drwyddedu neu dystysgrif)** - Ceisiadau a wneir o dan a.41A neu a.86A **Deddf Trwyddedu 2003** i wneud newidiadau risg isel i delerau **trwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb**. Mae'r ffi ar gyfer mân amrywiad wedi'i ragnodi yn y Ddeddf.

**Lluosydd** – Caiff lluosyddion eu defnyddio mewn perthynas ag eiddo a ddefnyddir yn unig neu'n bennaf ar gyfer cyflenwi alcohol i'w yfed yn yr eiddo o dan awdurdodiad **trwydded eiddo** (**bandiau ffioedd** D ac E yn unig).

**Gwerthu Alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo** – Gwerthu alcohol trwy fanwerthu i'w yfed oddi ar yr eiddo.

**Gwerthu Alcohol i'w yfed ar yr eiddo** - Gwerthu alcohol trwy fanwerthu a'i gyflenwi (gan glybiau) i'w yfed ar yr eiddo.

**Pobl eraill** - Unrhyw unigolyn, corff neu fusnes sy'n debygol o gael eu heffeithio gan ganiatáu ceisiadau am **drwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb**. Gall personau eraill gyflwyno sylwadau perthnasol i'r awdurdod trwyddedu perthnasol, a gallant ofyn am adolygiad o'r drwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb.

**Trwydded bersonol** - Awdurdodi unigolyn i gyflenwi neu awdurdodi cyflenwi alcohol yn unol â **thrwydded eiddo** o dan **Ddeddf Trwyddedu 2003**. Mae'r ffi ymgeisio am drwydded bersonol wedi'i rhagnodi yn y Ddeddf.

**Trwydded eiddo** - Awdurdodi eiddo i gael ei ddefnyddio ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol, darparu adloniant rheoledig neu ddarparu **lluniaeth gyda'r hwyr**, dan **Ddeddf Trwyddedu 2003**. Mae hyn yn cynnwys trwyddedau eiddo â therfyn amser. Mae ffi trwydded eiddo yn seiliedig ar ei werth ardrethol annomestig. Mae ffioedd cais yn amrywio o £100 ( Mae ffioedd cais yn amrywio o £100 (Band A) i £1,905 (Band E gyda lluosydd); mae ffioedd blynyddol yn amrywio o £70 i £1,050.

**Clwb cymwys** - Mae'n rhaid i nifer o feini prawf gael eu bodloni cyn cael ei ystyried yn glwb cymwys am **dystysgrif eiddo clwb**. Sef:

- o dan reolau'r clwb, na fydd pobl yn cael eu derbyn am aelodaeth neu gael eu derbyn fel ymgeiswyr ar gyfer aelodaeth, neu i unrhyw un o freintiau aelodaeth heb gyfnod o ddau ddiwrnod o leiaf rhwng eu henwebiad ar gyfer aelodaeth a'u derbyn;
- bod y clwb wedi'i sefydlu a'i gynnal mewn ewyllys da fel clwb;
- bod gan y clwb o leiaf 25 aelod; ac
- nad yw alcohol yn cael ei gyflenwi i aelodau ar yr eiddo ac eithrio gan neu ar ran y clwb.

**Sylwadau perthnasol** - Sylwadau sydd am effaith debygol caniatáu ceisiadau am **drwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb** ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, sy'n cael eu gwneud gan awdurdod cyfrifol neu berson arall o fewn y cyfnod a ragnodir o dan adran 17(5)(c) o'r Ddeddf, sydd heb gael eu tynnu'n ôl, ac yn achos y sylwadau a wnaed gan bobl eraill, nad ydynt, ym marn yr awdurdod trwyddedu perthnasol yn wamal neu'n flinderus.

**Awdurdod cyfrifol** - cyrff cyhoeddus y mae'n rhaid eu hysbysu am geisiadau **trwydded eiddo** penodol neu **dystysgrif eiddo clwb** ac mae ganddynt hawl i gyflwyno sylwadau i'r awdurdod trwyddedu. Mae'r rhain yn cynnwys

- yr awdurdod trwyddedu ac unrhyw awdurdod trwyddedu arall dros yr ardal mae'r eiddo wedi'i leoli,
- y prif swyddog yr heddlu sy'n gyfrifol am yr ardal ble y mae'r eiddo wedi'i leoli,
- yr awdurdod tân ac achub ar gyfer unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli,
- y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli,
- yr awdurdod gorfodi ar gyfer y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y gwaith ac ati 1974 ar gyfer unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli,
- yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli,
- yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am leihau neu atal y risg o lygru'r amgylchedd neu o niwed i iechyd pobl mewn unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli,

- corff sy'n cynrychioli rhai sydd, mewn perthynas ag unrhyw ardal o'r fath, yn gyfrifol am, neu â diddordeb mewn, materion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant rhag niwed, ac maent yn gymwys i roi cyngor ar faterion o'r fath,
- mewn perthynas â llong, awdurdod mordwyo sydd â swyddogaethau mewn perthynas â dyfroedd lle mae'r llong wedi ei hangori neu ei docio, neu unrhyw ddyfroedd lle mae, neu y bwriedir iddo, fordwyo ar adeg pan mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy,
- yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am bwyso a mesur mewn unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli,

**Adolygiad** - Yn dilyn caniatáu **trwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb** gall **awdurdod cyfrifol** neu **berson arall** ofyn i'r awdurdod trwyddedu adolygu'r drwydded neu'r dystysgrif oherwydd mater sy'n codi yn yr eiddo mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu.

**Dirymu (trwydded bersonol)** - Os yw'r deiliad **trwydded bersonol** yn cael ei ddyfarnu'n euog o drosedd yn ystod y cyfnod ymgeisio am y drwydded, gall y drwydded gael ei dirymu o dan a.124 **Deddf Trwyddedu 2003**.

**Ildio (trwydded)** - Os yw'r deiliad trwydded yn dymuno ei hildio, mae'n cael ei wneud yn unol â darpariaethau o dan adran 28 (am **drwydded eiddo**), adran 81 (am **dystysgrif clwb**) ac adran 116 (am **drwydded bersonol**).

**Seinwedd** – Yr amgylchedd acwstig fel y'i canfyddir neu a brofir gan bobl mewn lle a chyd-destun penodol. Mae seinwedd yn ystyried pob sain o fewn amgylchedd, gan gydnabod y gall sain gael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar iechyd, lles ac ansawdd bywyd pobl. Y nod yw creu'r amgylchedd acwstig cywir yn y lle cywir ac ar yr amser cywir, yn hytrach na lleihau sŵn yn unig.

**Rhybudd digwyddiad dros dro (TEN)** - Rhybudd o dan adran 100 **Deddf Trwyddedu 2003**, a ddefnyddir i awdurdodi gweithgareddau trwyddedadwy ar raddfa gymharol fach, yn amodol ar feini prawf a'r terfynau penodol. Mae'n cynnwys yn unig hysbysiadau sydd wedi cael eu rhoi yn gywir ac yn briodol yn y cyfnod amser penodol h.y. mae'n eithrio hysbysiadau a gafodd eu hanfon yn ôl oherwydd camgymeriadau ar y ffurflen. Mae hyn hefyd yn cynnwys hysbysiadau a gafodd eu tynnu'n ôl ar ôl hynny. Mae'r ffi ar gyfer Rhybudd digwyddiad dros dro wedi'i ragnodi yn y Ddeddf.

**Amrywiad (i drwydded eiddo)** - Ceisiadau a wneir o dan adran 34 **Deddf Trwyddedu 2003** i newid telerau'r **drwydded eiddo**, er enghraifft yr oriau agor, y gweithgareddau trwyddedadwy neu'r amodau. Mae'r ffi ar gyfer amrywio **DPS** wedi'i ragnodi yn y Ddeddf.

**Amrywiad (i dystysgrif eiddo clwb)** - Ceisiadau a wneir o dan adran 84 **Deddf Trwyddedu 2003** i newid telerau'r **dystysgrif eiddo clwb**, er enghraifft gweithgareddau trwyddedadwy neu'r amodau.